**LC466**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT DRAFT**

**Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 OS 2002/916 (W.104)**

O ganlyniad i ddiddymu'r Pwyllgor Arferion Meddygol, mae'r rheoliadau hyn yn system newydd fel y gall awdurdodau iechyd glustnodi swyddi gwag a gosod amodau gwaith ar Feddygon Teulu o ran llenwi'r swyddi hyn. Mae darpariaethau perthnasol yn ymwneud â gwerthu ewyllys dda hefyd wedi'u cynnwys.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u cyfeirio at y Gweinidog o dan Reol Sefydlog 11.4 ac ymatebwyd iddynt mewn llythyr ar 8 Mai, fel sydd yn yr atodiad.

**"ardal"**

Gofynnwyd am eglurhad o'r ystyr sydd i'w roi i "ardal" yn y diwygiadau a wnaed gan y rheoliadau hyn.  Gofynnwyd a fwriadwyd iddi gyfeirio at ran o ardal awdurdod iechyd neu'r ardal awdurdod iechyd yn gyfan.  Nodwyd bod rheoliad 13(9) o'r prif reoliadau (fel y'u gosodwyd gan reoliad 8(6) o'r rheoliadau presennol) yn darparu ar gyfer sefyllfa lle mae cleifion yn byw mewn mwy nag un ardal awdurdod iechyd, ond nid oedd yn amlwg ar unwaith a oedd y cyfeiriad, hyd yn oed yn yr amgylchiadau hyn, yn cyfeirio at y ddwy ardal awdurdod iechyd neu dim ond y gymdogaeth draws-ffiniol y mae'r cleifion yn byw ynddi.

Mae llythyr y Gweinidog yn awgrymu bod "ardal" yn y rheoliadau unigol yn cael ei diffinio fel naill ai'r ardal awdurdod iechyd yn gyfan gwbl neu ardal o fewn yr awdurdod iechyd. Mae'r llythyr yn dweud nad yw hyn yn gwbl foddhaol, ond ei fod yn adlewyrchu'r

derminoleg a ddefnyddir yn Lloegr ac y gallai unrhyw newid yng Nghymru achosi dryswch yn achos swyddi gwag sy'n croesi ffiniau.

Mae'r llythyr yn dweud bod bwriad i ofyn am fwy o eglurhad oddi wrth yr Adran Iechyd ac mae hwn bellach wedi dod i law ac wedi cael ei anfon at gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor. Cyngor yr Adran Iechyd yw bod "ardal", ym mhob achos, yn cyfeirio at ardal yr awdurdod iechyd. Mae hyn, wrth gwrs, yn amodol ar y ddarpariaeth benodol yn rheoliad 13(9) y cyfeirir ati uchod.

Cododd ymholiad y Pwyllgor o'r ffaith, er bod rheoliad 12, a fewnosodwyd, yn gyson ar y cyfan o ran y defnydd a wna o dermau megis "their area" (sy'n ei gwneud yn glir mai ardal yr awdurdod iechyd sydd dan sylw), mae'r diwygiadau/amnewidiadau yng ngweddill Rhan III o reoliadau 1992 yn defnyddio, mewn sawl achos, dermau fel "an area" a "the area". O ystyried yr ansicrwydd yn llythyr y Gweinidog a'r angen am gysylltu â'r Adran Iechyd yn Llundain, ymddengys nad y Pwyllgor oedd yr unig un oedd yn awyddus i gael esboniad.

Felly, gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r rheoliadau ar y sail bod angen eglurhad am ystyr "area" fel y'i defnyddir yn y diwygiadau, a bod yr eglurhad hwnnw bellach wedi dod i law.

**Rheoliad 19(3)**

Mae'r ffaith fod paragraff (2A) wedi ei osod yn rheoliad 18F, ar ôl paragraff (1), yn awgrymu bod paragraff (2) wedi cael ei ddiddymu. Serch hynny, dim ond yn Lloegr y mae paragraff (2) wedi ei ddiddymu. Felly dylai paragraff 2(A) fod wedi ei osod ar ôl paragraff (2).

Mae llythyr y Gweinidog yn cydnabod hyn, a thynnir sylw'r Cynulliad at y gwall bach hwn wrth ddrafftio. Serch hynny, nid yw hwn yn fater sydd angen ei gywiro, ac yn wir mae'n bosibl nad oes modd ei gywiro gan y gellid dweud bod y cyfarwyddyd i ddiwygio wedi cael ei roi mewn grym.

**Rheoliad 27(3)(b)**

Ymddengys y dylai "the Committee" fod yn "that Committee", ac mae llythyr y Gweinidog yn cydnabod hyn.

Felly, tynnir sylw'r Cynulliad at y gwall drafftio bach hwn y gellid ei gywiro pan gaiff y rheoliadau eu diwygio nesaf.

**Rheoliad 31**

Codwyd y cwestiwn a yw'r cyfeiriad at "Ysgrifennydd Gwladol " yn gywir gan y credwyd bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y prif reoliadau wedi cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad o dan erthygl 3 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.

Mae llythyr y Gweinidog yn egluro bod y swyddogaeth dan sylw wedi ei hepgor o'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau gwreiddiol a'i bod erbyn hyn yn cael ei chwmpasu gan ddiwygiad i Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 sy'n cyfeirio'n benodol ati fel swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol. Felly, derbynnir nad oes pwynt yn codi mewn perthynas â rheoliad 31.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Rheoliad 1**

Mae'r pennawd braidd yn gamarweiniol gan nad yw'n cwmpasu'r ddarpariaeth a wneir gan baragraff (4).

**Rheoliadau 10, 22 a 24**

Mae rhifau'r paragraffau "(1)" wedi eu cynnwys yn anghywir ym mhob achos, gan nad oes paragraffau dilynol.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

28 Mai 2002

**Jane Hutt AM**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Our ref: JH/01268/02

Mick Bates AM
Chair, Legislation Committee
The National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

8 May 2002

Dear Mick,

**THE NATIONAL HEALTH SERVICE (GENERAL MEDICAL SERVICES) (AMENDMENT) (WALES) REGULATIONS 2002 SI 2002/916 (W.104) (LC466)**

Thank you for your letter dated 23rd April 2002 enclosing a draft Committee report in respect of the above Regulations.

These Regulations are to replace the Medical Practices Committee (MPC) which was abolished on 31st March 2002. The MPC was an England and Wales body and the Assembly had no control over the timetabling of its abolition. The Executive Procedure was requested as it was necessary to have the Regulations in place at 1st April 2002.

I have outlined below my comments in respect of the individual points made in the draft Committee report under Standing Order 11.5:-

**References to "area":-**

As currently drafted, the reference to "area" in individual regulations is defined as either the Health Authority area in its entirety or an area within a Health Authority . This is not entirely satisfactory but mirrors the terminology used in Department of Health's (DoH) regulations; any change in our regulations may cause confusion in respect of cross border vacancies. I understand that the Office of the Counsel General are liaising with their counterparts in DoH to ascertain whether this issue has been raised in England and are awaiting a response.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Regulation 19(3):-**

Paragraph (2A) should have been inserted after paragraph (2).

**Regulation 27(3)(b):-**

"the Committee" should read as "that Committee".

**Regulation 31**

The reference to the "Secretary of State" is correct. This regulation refers to the issuing of a certificate that transactions do not involve the sale of goodwill. This function was originally undertaken by the MPC and was excluded from the Transfer of Functions Order. Section 15 of the Health and Social Care Act 2001 amended Schedule 10 of the 1977 Act and expressly gave the function to the Secretary of State. Consideration is currently being given to including this function in the next Transfer of Functions Order.

**General Observations**

**Regulation 1**

England have drafted in the same way.

**Regulations 10, 22 and 24**

The paragraph numbering is wrongly incorporated but I understand that these can be dealt with by correcting the proof.

With respect to Regulation 19(3) and 27(3)(b) as mentioned above, a new set of Regulations amending the National Health Service (General Medical Services) Regulations 1992 are currently being drafted and I am advised that it would be possible to make the necessary corrections in a Schedule thereto.

I hope the comments outlined above on the points raised in the draft report are sufficient to satisfy the Committee's concerns.

Yours,

Jane